# Bwletin Menter Môn

[mentermon.com](http://mentermon.com)
post@mentermon.com

Croeso i'n bwletin newydd. Dyma ble byddwn ni'n dod a'r newyddion diweddaraf i chi am Menter Môn, ein prosiectau a'n gwaith ar draws Ynys Môn, Gwynedd a thu hwnt. Cysylltwch gyda ni am ragor o wybodaeth amdanom ni neu unrhyw un o'n prosiectau. Mae ein gwaith yn syrthio i mewn i dair prif thema:

**Cymuned** **Economi** **Ynni**

## Hwb ariannol i amddiffyn llygod dŵr Gogledd Cymru



Dros 20 mlynedd rydym wedi bod yn arwain gwaith cadwraeth ar Ynys Môn, gan ganolbwyntio ar reoli poblogaethau minc er mwyn amddiffyn llygod dŵr yr Ynys. Mae llygod dŵr, a oedd unwaith yn olygfa gyfarwydd yn nyfrffyrdd y DU, bellach yn un o famaliaid y wlad sydd fwyaf mewn perygl. Yn wahanol i lawer o ardaloedd eraill yn y DU, lle mae llygod dŵr a fagwyd mewn caethiwed wedi cael eu hailgyflwyno, mae Ynys Môn wedi parhau i fod yn gadarnle i lygod dŵr gwyllt.

Diolch i hwb ariannol sylweddol o bron i chwarter miliwn gan Cronfa Treftadaeth y Loteri byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan ehangu ein prosiect i gwmpasu ardal eang o 1,555$km^2$ ledled Gogledd Cymru.

Os ydych yn dirfeddiannwr, a diddordeb mewn gwirfoddoli, neu'n angerddol am warchod bywyd gwyllt, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â laura@mentermon.com.**

## Sioe ffasiwn araf yn creu 'buzz' ym Mangor




Os fuoch chi i Pontio ym Mangor ym mis Ebrill, mae'n siŵr i chi sylwi ar ddigwyddiad go arbennig yno! Gyda chefnogaeth Llai, trawsnewidiom y ganolfan i groesawu cannoedd o bobl i ddathlu a mwynhau ffasiwn araf a chynaliadwy. Roedd rhywbeth at ddant pawb - sioe ffasiwn, caffi trwsio, ffair ffeirio, gweithdai a stondinau amrywiol a sgwrs holi ac ateb â chyn-gystadleuwyr y gyfres BBC boblogaidd, The Great British Sewing Bee!

Roedd y digwyddiad yn gyfle i addysgu pobl am effaith ffasiwn cyflym ar yr amgylchedd, a rhannu sgiliau a syniadau ar sut i wneud y mwyaf o hen ddillad a deunyddiau sydd gennym, gydag egwyddorion Cylchol yn greiddiol i'r holl weithgarwch.

**Darganfyddwch y digwyddiad nesaf yma.**

# Dosbarthiadau Meistr Cadwyn Cyflenwi

Dros y misoedd nesaf byddwn yn cynnal cyfres o ddosbarthiadau meistr ar-lein ar gyfer busnesau Gwynedd, i'w helpu i ddatgloi cyfleoedd cadwyn cyflenwi newydd yn y sector ynni adnewyddadwy. Os ydych yn chwilio am arweiniad ar sut i gryfhau eich sgiliau ysgrifennu tendrau neu ddeall prosesau caffael, bydd y sesiynau hyn yn rhoi'r offer a'r mewnwelediadau sydd eu hangen arnoch i gystadlu a ffynnu.




Bydd cyfle hefyd i gymryd rhan mewn sesiynau un-i-un wedi'r dosbarthiadau meistr, gan roi'r cyfle i drafod eich anghenion penodol a chael cyngor pwrpasol.

**Archebwch eich lle ar y digwyddiadau yma.**




## Dathlu'r Economi Sylfaen

Cafodd digwyddiad diweddar, Dathlu'r Economi Sylfaen, ei gynnal fel llwyfan gwerthfawr i brosiectau a mentrau sy'n ymrwymo i gefnogi cymunedau lleol ac atgyfnerthu'r economi sylfaenol.

Ymhlith y rheini a gymerodd ran oedd prosiect Larder Cymru - Bwyd Cymreig i Ysgolion, a gyflwynodd y gefnogaeth y maen nhw'n ei chynnig i awdurdodau lleol ledled Cymru. Amlygodd y prosiect ei waith parhaus i gynyddu caffael cynnyrch Cymreig mewn ysgolion, gan sicrhau bod mwy o fwyd lleol yn cael ei weini i ddisgyblion ar draws y wlad.

Cafwyd cyfraniadau hefyd gan brosiectau eraill sy'n gweithio i hyrwyddo cynnyrch lleol, annog arferion cynaliadwy, a hyrwyddo nodau'r economi sylfaenol. Roedd y digwyddiad yn gyfle i rannu profiadau, dathlu llwyddiannau, ac ail-gadarnhau ymrwymiad i adeiladu economïau lleol sy'n hydwyth ac wedi'u gwreiddio yn y gymuned.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â david@mentermon.com.**

# Cadeirydd Great British Energy yn ymweld â Morlais

Roedd tîm Morlais yn falch o groesawu Juergen Maier, Cadeirydd Great British Energy, i is-orsaf ein cynllun ynni lanw ar Ynys Cybi yr wythnos hon. Dyma ymweliad cyntaf Mr Maier â'r safle ac roedd yn gyfle iddo ddysgu mwy am gynllun Morlais a'i botensial i ddarparu ynni glân, adnewyddadwy i'r grid. Yn ystod yr ymweliad, cafodd Mr Maier daith o amgylch y safle a'i gyflwyno i aelodau allweddol o dîm Morlais. Roedd hefyd yn gyfle i ddangos y cynnydd gyda'r cynllun hyd yma ac amlygu'r uchelgais i gefnogi twf y sector ynni llanw yng Nghymru a thu hwnt.

Roedd yr ymweliad hefyd yn cynnwys diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol (MCRP) - prosiect sy'n casglu data amgylcheddol pwysig i gefnogi datblygiad Morlais a phrosiectau ynni morol eraill yn y dyfodol. Fel un o'r safleoedd ynni llanw mwyaf yn Ewrop, gall y cynllun chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod Cymru yn cyrraedd targedau sero-net tra'n creu cyfleoedd economaidd sylweddol i'r ardal leol.



**Dysgwch fwy am Morlais yn fan hyn.**



## Ymchwil yn sail i adroddiad Ystâd y Goron

Mae adroddiad newydd gan Ystâd y Goron yn tynnu sylw at y datblygiadau diweddaraf ym maes monitro amgylcheddol ar gyfer ynni llif llanw, gan dynnu ar ddata wedi ei gasglu gan brosiect MCRP yn Ynys Môn. Mae'r adroddiad yn edrych ar sut mae'r sector ynni llanw yn ceisio gwella ddealltwriaeth o effeithiau amgylcheddol posibl dyfeisiau fel tyrbinau, gyda phwyslais yn benodol ar sut maen nhw'n rhyngweithio â bywyd gwyllt morol.

Dywedodd Helen Roberts, Arweinydd Prosiect MCRP: "Mae'n wych gweld y gwaith rydyn ni wedi'i arwain arno yng Nghymru yn chwarae rhan mor allweddol ar lefel y DU. Mae'r MCRP wedi dod ag arbenigwyr sector, ymchwilwyr a rheoleiddwyr ynghyd i adeiladu darlun cliriach o sut mae dyfeisiau llif llanw yn gallu rhyngweithio efo'r amgylchedd - mae'r adroddiad hwn gan Ystâd y Goron yn ganlyniad o'r gwaith a'r ymdrech yma."

Mae'r MCRP yn rhan o ein portffolio prosiectau ynni a gafwyd ei sefydlu i gefnogi datblygiad cyfrifol cynllun ynni llanw Morlais. I'r hir dymor, bydd y canfyddiadau yn yr adroddiad yn helpu i lunio sut mae data yn cael ei rannu a'i drosglwyddo ar draws y sector ynni llanw, gan wneud gwell defnydd o'r dystiolaeth sydd ar gael.

**Darllenwch yr adroddiad llawn yma.**